# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd R Malcolm James**

**Ward: Llangynwyd a Chwmfelin**

## Plaid: Plaid Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn sy'n dod i ben yn 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn yw ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llangynwyd a Chwmfelin unwaith eto ar 5 Mai 2022, am fy nhrydydd tymor. Rwyf wedi cyflawni amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.<br><br>Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi **33** o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.<br><br>Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch chi, rwyf wedi mynd i nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen hon:<br>Cynghorydd Malcolm James |
| **Gweithgarwch yn yr Etholaeth**<br><br>Rwy'n parhau i fod yn llywodraethwr yn yr ysgol gyfun Gymraeg, sef Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd, sydd newydd dderbyn sgôr rhagorol gan Estyn, yr uchaf posibl ac un o ddim ond 3 ysgol yng Nghymru, felly mae gwaith caled y prifathro, yr holl staff a'r llywodraethwyr dros y blynyddoedd diwethaf yn dechrau talu erbyn hyn.<br><br>Rwyf hefyd yn llywodraethwr ar Ysgol Fabanod ac Iau Llangynwyd ac yn mwynhau fy ymwneud yn fawr â'r pennaeth, yr athrawon a'r disgyblion, yn enwedig ar ddydd Gŵyl Dewi.<br><br>Rwy'n parhau i fod ar y Pwyllgor Trwyddedu ac yn treulio llawer o'm hamser yn gweithio ar ymholiadau etholwyr, yn enwedig ar hyn o bryd am gyllid, materion tai ac wrth gwrs problem tyllau yn y ffordd y mae pawb yn ei hwynebu oherwydd ein harwynebau ffordd gwael. |

Rwyf hefyd yn helpu Cyngor Cymuned Llangynwyd gyda phroblemau torri gwair a llwybrau troed.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn gysylltiedig â'r gwrthwynebiadau cynllunio cychwynnol i ffermydd gwynt ar gyfer Bryn a Chwm Afan. Rwy'n gwybod bod llawer o bobl leol yn teimlo'n gryf am hyn.

Byddaf yn parhau i frwydro am bŵer llanw sy’n ymddangos, i mi, yn ateb gwell a ninnau’n ynys.

Rwyf hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'n AS Luke Fletcher i wella ein cymuned leol a pharhau i geisio cydbwyso'r anghyfiawnderau yn ein hardaloedd, ni ddylid anghofio'r Cwm.

**Gweithgareddau/ Materion Eraill**

Rwy'n aelod o bwyllgor clwb rygbi lleol, lle byddwch chi’n dod o hyd i mi wrth y giât bob dydd Sadwrn (Quins Maesteg). Annog chwaraeon yn y gymuned fu un o'm hamcanion erioed ac mae gweld pa mor dda mae'r clwb wedi datblygu heb unrhyw gyllid mawr heblaw cefnogwyr a chwaraewyr yn rhoi boddhad mawr.

Rwyf hefyd ar bwyllgor Cymdeithas Bysgota Cwm Llynfi.

**Y Cynghorydd Malcolm James- RM James :** **Dyddiad:20/6/2023**